



Asiantaeth
Safonau
Bwyd
food.gov.uk



Cynllun Strategol yr
Asiantaeth Safonau Bwyd 2015-20

.....
CYNNWYS
.....




.....

| | |
|--|-----------|
| CYFLWYNIAD | 4 |
| CANLYNIADAU STRATEGOL | 8 |
| Y CYNLLUN STRATEGOL | 10 |
| PRIF WEITHGAREDDAU | 20 |
| BWYD Y GALLWN YMDDIRIED YNDDO | 22 |
| MAE BWYD YN DDIOGEL | 24 |
| MAE BWYD YN CYD-FYND Â'R HYN SYDD AR Y LABEL | 26 |
| CASGLU A DEFNYDDIO GWYDDONIAETH, TYSTIOLAETH A GWYBODAETH | 28 |
| RHOI'R GRYM I DDEFNYDDWYR | 30 |
| ALINIO CYNLLUNIAU CYMHELLIANT | 32 |
| BOD Y SEFYDLIAD GORAU Y GALLWN FOD | 34 |

.....

.....
CYFLWYNIAD
.....



Yn 2014, cafodd strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ar gyfer 2015-20 ei chymeradwyo gan y Bwrdd.¹ Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar y rhesymau dros fodolaeth yr Asiantaeth – ein dibenion a'n nodau a'n hamcanion mwyaf.

Wrth ddatblygu'r strategaeth, aeth yr ASB ati i adolygu llawer o dystiolaeth ac ymgysylltu â defnyddwyr, staff yr ASB ac ystod eang o randdeiliaid (rhanddeiliaid academiaidd a gwyddonol, sefydliadau defnyddwyr, cynrychiolwyr o'r diwydiant, awdurdodau lleol, ac adrannau llywodraethol ac anllywodraethol eraill) er mwyn nodi'r prif themâu y byddai'r ASB yn eu defnyddio i lywio'i phrosesau a'i chynlluniau ar gyfer 2015-20.

Daeth nifer o themâu pwysig i'r amlwg sy'n llywio ein cynllun strategol.

Mae'r themâu mwyaf pwysig yn gysylltiedig â'n rôl unigryw o fewn y llywodraeth, fel sydd wedi'i nodi yn ein deddfwriaeth sefydlu (o'i gyfieithu):

“ Prif amcan yr ASB wrth arfer ei swyddogaethau yw diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau a allai godi mewn perthynas â bwyta bwyd (gan gynnwys risgiau a berir gan y ffordd y caiff y bwyd hwnnw ei gynhyrchu neu'i gyflenwi) ac fel arall i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. ”

Wrth ganolbwyntio ar y diben hwn, a osodwyd gan y Senedd, ac ystyried y ffactorau amgylcheddol tebygol sy'n wynebu'r DU dros gyfnod y strategaeth nesaf a thu hwnt, cytunodd y Bwrdd i adfywio ac ail-bwysleisio addewid yr ASB:

Byddwn yn rhoi defnyddwyr yn gyntaf ym mhob agwedd ar ein gwaith.

1 : <http://www.food.gov.uk/sites/default/files/fsa-150104.pdf>

O gofio'r heriau i ddiogelwch a dilysrwydd bwyd, daeth yr ASB i'r casgliad bod angen ystyried "buddiannau defnyddwyr", ac ar ôl cynnal gwaith arwyddocaol â defnyddwyr ac eraill, cytunodd yr ASB ar ddiffiniad o fuddiannau defnyddwyr a fydd yn sail i'n cynllun strategol.

Mae bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, ac mae gennym fynediad at ddeiet fforddiadwy ac iach, ac rydym yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am beth i'w fwyta, nawr ac yn y dyfodol.



Penderfynodd yr ASB i ganolbwyntio'i hymdrechion a'i hadnoddau ar "fwyd diogel a bwyd sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label". Mae'r rhain yn feysydd lle mae'r ASB mewn sefyllfa dda i wneud y cyfraniad mwyaf i fuddiannau defnyddwyr. Dywedodd yr ASB hefyd y byddai'n edrych p'un a oes modd defnyddio'i gwyddoniaeth a'i thystiolaeth, yn ogystal â'i hygyrddedd a'i hannibyniaeth, i gefnogi defnyddwyr i ystyried y cydberthynas rhwng eu buddiannau bwyd uniongyrchol a thymor canolig/hir mewn perthynas ag arloesedd yn y system fwyd. Mae'r ASB yn gwybod bod mwy a mwy o heriau ynghylch diogelwch, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd. Mae hefyd yn gwybod y bydd rhai o'r arloesiadau presennol ac yn y dyfodol sy'n bosibl wrth gynhyrchu bwyd yn gwrthdaro â rhai o werthoedd defnyddwyr. Fel cymdeithas, bydd yn rhaid i ni fod yn glir o ran y graddau y bydd harneisio arloesedd yn hanfodol ac yn dderbyniol wrth gwrdd â'r heriau hynny. Rydym yn credu mai rôl yr ASB, lle ceir datblygiadau arloesol a allai sicrhau budd i ddefnyddwyr ar draws yr ystod o fuddiannau defnyddwyr, yw helpu i fframio'r drafodaeth gyhoeddus a dadlau dros fabwysiadu'r technolegau hynny.

Drwy ymgynghori â defnyddwyr, roedd modd nodi tair hawl sydd gan ddefnyddwyr, sy'n sylfaen i'n gwaith:

- Yr hawl i gael eu diogelu rhag lefelau risg annerbyniol.
- Yr hawl i wneud dewisiadau gan wybod y ffeithiau.
- Yr hawl i'r dyfodol bwyd gorau posibl.

Weithiau, mae defnyddwyr yn dweud wrthym eu bod yn teimlo nad oes ganddynt unrhyw rym yn eu perthynas â bwyd. Rydym am i ddefnyddwyr deimlo'n hyderus a phwerus – gyda'r gallu i gyfrannu'n effeithiol at y broses o lunio system fwyd sy'n diogelu eu buddion ac yn parchu eu hawliau. Mae gennym ni rôl i ddiogelu, hysbysu a rhoi grym i ddefnyddwyr er mwyn eu helpu i sicrhau'r hawliau hyn. Mae Adran 7(2) o'r Ddeddf Safonau Bwyd yn datgan bod gan yr Asiantaeth y swyddogaeth ganlynol (o'i gyfieithu): "sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn cael eu hysbysu a'u cynghori'n ddigonol am faterion y mae'r Asiantaeth yn eu hystyried i fod yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i wneud dewisiadau gwybodus am fwyd".

Rydym hefyd yn cydnabod bod gan ddefnyddwyr gyfrifoldebau yn ogystal â hawliau ac rydym yn awyddus i greu amgylchedd lle caiff defnyddwyr eu hannog i fod yn rhan weithredol o sicrhau'r dyfodol gorau posibl mewn perthynas â bwyd.

Bu i ni gydnabod bod fforddiadwyedd, dewis, diogelwch bwyd (*food security*) a chynaliadwyedd oll yn faterion y mae gan eraill fwy o allu na ni i wneud gwahaniaeth yn eu cylch. Nid ydym am or-ymestyn ein hunain, a thrwy geisio gwneud gormod, cyflawni llai i ddefnyddwyr. Ond rydym ni eisiau cyfrannu at y gwaith y mae eraill yn ei wneud yn y meysydd hyn lle mae'n bosibl gwneud hynny i gefnogi'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr.

Rydym hefyd yn cydnabod, wrth i ni wneud penderfyniadau neu geisio gwneud gwahaniaeth yn y prif feysydd yr ydym yn canolbwyntio arnynt, mae'n bosibl ein bod yn effeithio ar agweddau allweddol eraill o fuddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Felly rydym yn ymrwymo i feddwl yn fwy gofalus am ein gweithgareddau ein hunain ac asesu pob un ohonynt o safbwynt eu heffaith ar fforddiadwyedd, dewis, safon faethol, diogelwch bwyd (*food security*) a chynaliadwyedd.

O fewn y prif feysydd yr ydym yn canolbwyntio arnynt ("bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label") mae gofyn i ni fod yn glir am ein rôl a'n cyfrifoldebau a rolau a chyfrifoldebau eraill.

Cyfrifoldeb y rheiny sy'n cynhyrchu a chyflenwi bwyd yw sicrhau ei fod yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label ... ac mae gan yr ASB rôl arwain bwysig i'w chyflawni i sicrhau eu bod yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif.

“
Bwyd yn
ddiogel ac yn
cyd-fynd â'r
hyn sydd ar
y label
”

Yn ogystal â hawliau, mae gan ddefnyddwyr gyfrifoldebau hefyd – cyfraniadau y gallant nhw yn unig eu gwneud er mwyn gwella'r system fwyd a'i heffeithiau arnynt nhw a'u teuluoedd. Mae defnyddwyr yn gyfrifol am reoli'r risgiau sydd ynghlwm â bwyd pan mae modd gwneud hynny. Mae ganddynt yr hawl i gael eu hysbysu a'u cefnogi i ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn ac rydym yn ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i'w helpu i wneud hynny.

.....
**CANLYNIADAU
STRATEGOL**
.....




Mae'r canlyniadau strategol yr ydym yn eu defnyddio i fesur ein heffaith yn gyson â'r diffiniad o fuddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, fel yr amlinellir yn y strategaeth:

- Mae bwyd yn ddiogel.
- Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.
- Gall defnyddwyr wneud penderfyniadau gwybodus am beth i'w fwyta.
- Mae gan ddefnyddwyr fynediad at ddeiet fforddiadwy ac iach, nawr ac yn y dyfodol.

Byddwn yn nodi cyfres o ddangosyddion ar gyfer pob un o'r canlyniadau strategol, a byddwn yn monitro ac yn adrodd ar y rhain fel rhan o'n cylch rheoli busnes a pherfformiad rheolaidd.

Mae gan yr ASB gyfrifoldeb ar y cyd ag eraill – gan gynnwys y diwydiant, defnyddwyr, a rhannau eraill o'r llywodraeth – i wella'r canlyniadau bwyd hyn ar gyfer defnyddwyr. Caiff y canlyniadau eu cynhyrchu ar y cyd ac maent yn deillio o nifer o ffactorau. Nid oes modd i'r ASB eu cyflawni ar ei phen ei hun. Dim ond os yw pawb yn gweithio gyda'i gilydd a chwarae eu rhan y byddwn yn gallu sicrhau bwyd y gallwn ymddiried ynddo. Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn chwarae ein rhan a gosod targedau i'n hunain ar gyfer y ffactorau hynny y gallwn fod yn gyfrifol am eu cyflawni.

.....
Y CYNLLUN
STRATEGOL
.....



Mae Strategaeth 2015-20 yr ASB yn amlinellu p'am ein bod ni'n bodoli, beth yw ein diben a'n nod, a sut y mae hynny'n gysylltiedig â'r amgylchedd newidiol yr ydym yn gweithredu ynddo.

Mae'r cynllun strategol yn nodi'r prif themâu a fydd yn llywio'r ffordd y byddwn yn mynd ati i feithrin y sefydliad a'i alluoedd i gyflawni'i ddiben a'r amcanion a amlinellir yn y strategaeth.

Wrth lunio ein strategaeth, bu i'r Bwrdd gydnabod y bydd y system fwyd yn dod o dan fwy a mwy o bwysau dros y deng i ugain mlynedd nesaf, ac na allwn fod yn siŵr pa mor gyflym y bydd y newidiadau hyn yn digwydd. Felly cytunodd y Bwrdd ar ddull ar gyfer cynllun 2015-20 sy'n canolbwyntio ar ddelio â heriau heddiw wrth geisio cryfhau pa mor barod ydym ni ar gyfer bygythiadau a chyfleoedd y dyfodol.

Byddwn yn defnyddio gwyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth i fynd i'r afael â heriau heddiw yn ogystal ag i nodi a chyfrannu at fynd i'r afael â risgiau'r dyfodol.

Yn ein trafodaethau â rhanddeiliaid, maent wedi pwysleisio pa mor bwysig yw ein bod ni'n parhau i ddatblygu a defnyddio sail dystiolaeth gadarn yn ein gwaith i ddiogelu buddiannau defnyddwyr. Mae tystiolaeth gadarn, a gaiff ei chyhoeddi'n agored a'i chyfathrebu'n effeithiol, yn un o gonglfeini ymddiriedaeth. Mae ein hymrwymiad parhaus i ddatblygu'r sail dystiolaeth yn cynnig sylfaen hollbwysig sy'n galluogi defnyddwyr i weld a deall y wyddoniaeth sydd y tu ôl i benderfyniadau, ac yn annog y diwydiant i gydymffurfio â'n ceisiadau a'n cyngor gan fod y diwydiant yn gwybod eu bod yn rhesymegol o ran eu sail.

Byddwn yn casglu ac yn defnyddio tystiolaeth i nodi a deall y risgiau a'r heriau mwyaf i fuddiannau defnyddwyr, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu canolbwyntio ein hymdrechion ar feysydd lle gallwn sicrhau neu achosi eraill i gael yr effeithiau mwyaf.

Byddwn yn datblygu ein strategaeth a'n cynllun ar gyfer gwyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth drwy weithio'n agos â rhanddeiliaid.





Byddwn yn defnyddio
adnoddau deddfwriaethol
ac aneddfwriaethol
yn effeithiol iawn
er mwyn diogelu
buddiannau defnyddwyr
a sicrhau manteision i
ddefnyddwyr, a hynny
drwy ddylanwadu ar
ymddygiad busnesau
er lles defnyddwyr.

Ym mhob un o'r trafodaethau ar ein strategaeth, mae pawb o'r diwydiant bwyd, yn ogystal â defnyddwyr ac academyddion, wedi pwysleisio bod angen rheoleiddiwr cryf, sy'n annibynnol ar y diwydiant bwyd a'i gefnogwyr. Mae pobl yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar lywodraeth leol a chanolog o ran adnoddau a'r angen i ddod o hyd i ffyrdd o weithio cynaliadwy sy'n diogelu defnyddwyr yn y tymor hir yn y cyd-destun hwn.

Er mwyn sicrhau bod busnesau yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau a bod defnyddwyr yn cael y gefnogaeth a'r wybodaeth i ymgymryd â'u cyfrifoldebau nhw, mae gan yr ASB fynediad at ddau brif set o adnoddau. Mae adnoddau rheoleiddio traddodiadol, megis llunio deddfwriaeth a rheoliadau a'u gorfodi; ac yna mae adnoddau sy'n seiliedig ar gyfathrebu, megis sicrhau mwy o dryloywder ar safonau busnes, sy'n gallu cymell gwelliant cyflymâch a mwy cynhwysfawr, a gwobrwyo busnesau cyfrifol yn ogystal â rhoi gwell gwybodaeth a mwy o rym i ddefnyddwyr.



Byddwn yn dilyn yr egwyddorion yn y Strategaeth Reoleiddio,² y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2015. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Byddwn yn rhoi defnyddwyr yn gyntaf ym mhob agwedd ar ein gwaith.
- Byddwn yn ceisio alinio cynlluniau i gymell ac anghymell busnesau bwyd gyda buddiannau defnyddwyr.
- Bydd ein ffocws ar y canlyniadau yr ydym yn ceisio eu sicrhau, gan gadw meddwl agored am y ffordd yr ydym yn cyflawni'r canlyniadau hyn.
- Dylai ein dull rheoleiddio yn y dyfodol fod yn seiliedig ar risg a dylid ei asesu o safbwynt ei effeithiau.
- Byddwn yn defnyddio ein pwerau i gyflawni ein hamcanion strategol – sy'n mynd y tu hwnt i'n cyfrifoldeb rheoleiddio mewn perthynas â gwirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd.
- Gellir cyfiawnhau ymyrraeth gan y llywodraeth (gan gynnwys deddfwriaeth) lle mae'r manteision i'r cyhoedd yn gymesur â'r costau / anfanteision o'i gymhwyso.
- Ni ddylai costau rheoleiddio i fusnesau fod yn fwy na sydd angen iddynt fod.
- Nid rôl yr ASB na'r awdurdodau lleol yw hi i sicrhau cydymffurfiaeth – caiff ei diffinio'n glir yn y gyfraith fel cyfrifoldeb busnesau.

Mae defnyddwyr yn haeddu diogelwch mesurau gorfodi cyfraith bwyd sy'n darparu ar eu cyfer drwy baru adnoddau i risg, a defnyddio a gwella effeithiolrwydd yr ystod lawn o adnoddau gorfodi. Bydd ein Huned Troseddau Bwyd newydd yn canolbwyntio ar olrhain y gweithredwyr hynny sy'n torri'r gyfraith yn fwriadol a pheryglu defnyddwyr, a'u rhoi allan o fusnes. Wrth dargedu adnoddau gorfodi, byddwn yn rhoi mwy o gydnabyddiaeth i fusnesau sy'n gwneud y pethau iawn i ddefnyddwyr a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ganfod ffyrdd cost effeithiol i gefnogi busnesau i wneud hynny, gan adeiladu ar lwyddiant ein pecyn "Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell" ar gyfer defnyddwyr, er enghraifft.

Byddwn yn defnyddio "dull ymgyrchu" i sicrhau manteision ar gyfer defnyddwyr – ac yn canolbwyntio'n glir ar ba newidiadau sydd o fudd i ddefnyddwyr a pham; byddwn yn ceisio dwyn perswâd ar ddefnyddwyr a busnesau i wneud y newidiadau hynny a fydd yn elwa defnyddwyr yn y tymor hir; byddwn yn alinio ein hadnoddau i'w cyflawni; a byddwn yn meithrin cynghreiriau gyda sefydliadau eraill, rhannau o lywodraeth a'r rheiny sy'n ffurfio safbwyntiau i sicrhau manteision i ddefnyddwyr.



2 : <http://www.food.gov.uk/sites/default/files/fsa-150104.pdf>

Byddwn ni'n mynd ati o ddifrif i ymgysylltu ac i fod yn agored, a chanfod ffyrdd o roi grym i ddefnyddwyr wrth lunio a gweithredu polisi, ac yn eu perthynas â'r diwydiant bwyd.

Wrth sefydlu'r ASB, roeddem ni ar flaen y gâd o ran bod yn agored ac yn dryloyw. Gallwn adeiladu ar yr ymrwymiad hwn, ac mae gofyn i ni wneud hynny o ystyried y newidiadau yn nisgwyliaidau cymdeithas, a'r amgylchedd yr ydym yn gweithredu ynddo.

Rydym ni o'r farn bod defnyddwyr yn gallu ymdrin â materion cymhleth yn ymwneud â bwyd os ydynt yn cael y gefnogaeth a'r cyfleoedd iawn i wneud hynny, a byddwn yn ceisio rhoi'r cyfleoedd hynny iddynt, rhannu'r syniadau sy'n dod i'r amlwg, ac annog eraill i ymgysylltu â defnyddwyr yn agored a sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at wybodaeth am y system fwyd a sut y mae'n gweithio.

Mae'r hawl i wneud penderfyniadau gan wybod y ffeithiau yn gofyn am lawer mwy o dryloywder yn y system fwyd. Mae'r wybodaeth a gesglir gan ddiwydiant am y bwyd y mae pobl yn ei brynu, a ble a sut y mae'n cael ei gynhyrchu, yn mynd yn llawer pellach na'r hyn sy'n ymddangos ar labeli neu fwydlenni. Mae llwyddiant y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn dangos ei bod yn bosibl cymryd ystod o wybodaeth, yn yr achos hwn am safleoedd, cynlluniau ac arferion hylendid, a'i rhoi mewn fformat syml y gall defnyddwyr ei ddeall ac sy'n eu galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus. Byddwn yn gwthio'r agenda o dryloywder yn y system fwyd, gan osod disgwyliaidau clir am yr wybodaeth y dylai'r diwydiant a'r rheoleidiwr gyhoeddi. Byddwn yn gweithio gyda defnyddwyr i ddeall a chyfathrebu'r materion sydd o bwys iddyn nhw. Drwy wneud hyn, fe allwn ni a phartion eraill sydd â diddordeb ddatblygu adnoddau a chymwysiaidau newydd sy'n helpu i gefnogi defnyddwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb am y penderfyniadau bwyd y maent yn eu gwneud yn ogystal â'u heffeithiau.

Byddwn yn canfod ac yn treialu ffyrdd newydd o ymgysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill ar y cam cynharaf posibl er mwyn iddynt allu ein helpu i lunio'r cwestiynau a'r heriau yr ydym am i bolisiau fynd i'r afael â nhw; ffyrdd newydd o ymgysylltu â phobl drwy gydol y broses o lunio polisi ac nid yn ystod y broses ymgynghori ffurfiol yn unig; a ffyrdd o brofi atebion posibl gyda rhanddeiliaid – prototeipio polisi i'n helpu i fireinio atebion polisi a'u cyflawni i'r safon orau bosibl.

“

Byddwn yn canfod ac yn treialu ffyrdd newydd o ymgysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill

”

Byddwn yn creu amgylchedd lle mae ein pobl yn alluog iawn, wedi'u cefnogi'n ddigonol, ac yn dewis yn gyson i wneud cyfraniadau nodedig i ddiogelu defnyddwyr a rhoi iddynt wybodaeth a grym.

Mae defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y diwydiant bwyd, wedi dweud wrthym eu bod eisiau Asiantaeth sy'n gryf, sydd ag adnoddau digonol ac sy'n hygred. Yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol i ni weithio ar fodelau cynaliadwy o ariannu, blaenoriaethu a chaffael a defnyddio tystiolaeth, mae hyn yn dibynnu'n fawr ar ein gallu i ddenu'r bobl orau a'u lleoli'n effeithiol.

Wrth i'n dull gweithredu ddod yn un sy'n ymwneud â sicrhau effaith o'n harbenigedd a dylanwadu ar eraill, rydym ni'n dod yn fwyfwy dibynnol ar ansawdd, sgiliau, cymhelliant ac aliniad ein pobl. Credwn ein bod ni ar ein gorau pan ein bod:

- Yn broffesiynol ac mae modd ymddiried ynom.
- Wedi ein rheoli'n dda ac yn gweithio gyda gonestrwydd.
- Yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr a bod yn ymgyrchwyr creadigol.
- Yn hyblyg ac yn wydn ac yn gweithio'n galed.
- Yn gweithio'n dda iawn gyda'n gilydd ar draws y sefydliad cyfan a chydag eraill.
- Yn deall busnesau a sut i'w cael i wneud pethau.
- Yn canolbwyntio ar ganlyniadau a'r prosesau sy'n eu cefnogi.
- Yn arloesi.

Bydd ein cynllun pobl yn canolbwyntio ar sicrhau bod gennym:

- Y bobl iawn gyda'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiadau cywir
- Y dulliau ymgysylltu cywir
- Cefnogaeth drwy'r ffyrdd cywir o weithio.

Dros gyfnod y cynllun strategol un ffordd o fesur hyn fydd y ffordd yr ydym yn datblygu ymgysylltiad ac aliniad pobl â'r ASB i fod cystal â'r goreuon yn y gwasanaeth sifil, gan sicrhau'r meincnod perfformiad uchel yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil.

Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o weithio at y dyfodol, gan alluogi pobl i gyfrannu o'r lleoliadau a thrwy'r dulliau sy'n gweddu orau iddyn nhw a chydweithio ar draws a thu hwnt i ffiniau'r sefydliad.



Byddwn yn meithrin sefydliad sy'n sicrhau effeithiau mawr drwy gyfrwng adnoddau bychain.

Mae ein strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd edrych ar y system fwyd yn ei chyfanrwydd a rhoi'r grym i ddefnyddwyr drwy roi iddynt wybodaeth am y system honno a pha mor dda mae hi yn diogelu eu buddiannau. Nid yn unig y mae hyn yn golygu bod gofyn i ni ystyried sut ydym ni'n monitro ac adrodd ar ein perfformiad ein hunain a sut ydym ni'n perfformio o ran cyflawni'r amcanion yr ydym ni'n gallu eu rheoli, ond hefyd i nodi ffyrdd o adrodd ar berfformiad y system gyfan, gan dynnu sylw at faterion lle bo gofyn diogelu buddiannau defnyddwyr a nodi unrhyw ffaeleddau neu dueddiadau sy'n peri pryder.

Byddwn yn ceisio nodi dangosyddion sy'n nodi ble mae problemau perfformiad neu fannau gwan yn y system gyfan, o ran ei gallu i gyflawni yn erbyn y diffiniad eang o fuddiannau defnyddwyr. Bydd hyn yn ein helpu i wybod ble i ganolbwyntio ein hegri a'n dylanwad i gefnogi newid, a rhoi'r grym i ddefnyddwyr ac eraill fynnu newid dros eu hunain.

O ystyried y cyfyngiadau ar adnoddau y mae pob rhan o'r llywodraeth yn eu hwynebu, a pha mor bwysig yw hi ein bod ni'n sicrhau'r manteision mwyaf i ddefnyddwyr a'r gost leiaf, byddwn hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwaith ein hunain – gan gynnwys y prosesau polisi sy'n sail i'n rôl fel adran o'r Llywodraeth, ein gwaith gweithredol a'r adnoddau corfforaethol sy'n galluogi ac yn cefnogi ein gwaith. Byddwn yn datblygu fframwaith adrodd a set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar lefel strategol sy'n galluogi ein

Bwrdd a'n rhanddeiliaid i ddeall sut ydym ni'n perfformio, ac ar lefel weithredol sy'n sicrhau ein bod ni'n gallu parhau i wella gwerth am arian yn ein gwaith.

Ers ffurfio'r Asiantaeth, rydym wedi bod yn gorff ar draws y DU gyda chynrychiolaeth yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Fodd bynnag, o fis Ebrill 2015 ymlaen, bydd gan yr Alban gorff bwyd newydd a byddwn yn sicrhau ein bod yn rheoli'r broses drosglwyddo llyfn i'r trefniadau newydd ac yn parhau i weithio'n agos â'r Alban i gynnal diogelwch defnyddwyr. Rydym ni'n cydnabod y manteision i ddefnyddwyr o'r ASB yn rhannu sgiliau ac arbenigedd ar draws Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, ac rydym yn credu, tra bo gan bob gwlad ei phroblemau ei hun i fynd i'r afael â nhw, yng nghyd-destun system fwyd fyd-eang, mae manteision go iawn o ran parhau i weithio fel un endid. Byddwn yn arddangos hyn yn y ffordd yr ydym ni'n gweithio. Drwy ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol, byddwn hefyd yn cynhyrchu cynlluniau penodol sy'n amlinellu gwaith yr ASB yng Nghymru a Gogledd Iwerddon ac yn ystyried cynhyrchu cynllun ar gyfer Lloegr.



.....
PRIF
WEITHGAREDDAU
.....



Prif weithgareddau allweddol yr ASB dros gyfnod y cynllun strategol. Mae'r gweithgareddau ar y tudalennau canlynol yn disgrifio rhai o'r pethau yr ydym ni'n bwriadu eu gwneud bob blwyddyn i sicrhau cynnydd tuag at ein canlyniadau strategol a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

Rhwng 2015 a 2020 byddwn yn manteisio ar gymaint o gyfleoedd â phosibl i symud yn y cyfeiriad a amlinellir yn ein strategaeth. Mae nifer o gamau gweithredu penodol yr ydym ni'n bwriadu eu cymryd – rhai yn fach iawn, rhai yn fawr ac yn gymhleth. Byddwn yn sicrhau cysondeb strategol a'r cynnydd mwyaf posibl drwy ganolbwyntio'n gyson ar effaith popeth yr ydym yn ei wneud, yn hytrach na chanolbwyntio ar lond llaw o "fentrau" mawr i ganolbwyntio arnynt a dychmygu y gall gweddill ein gweithgarwch barhau heb gael ei effeithio neu gael ei "ddad-flaenoriaethu" a'i atal – mae ein gwaith ar alergeddau, cemegion a rheoli digwyddiadau yn parhau'r un mor bwysig ag erioed, er enghraifft.

Fodd bynnag, bydd rhai rhaglenni gwaith arbennig o arwyddocaol, ac rydym o'r farn y bydd y rhain yn hanfodol fel sail i weithredu'r strategaeth yn llwyddiannus. Maent yn gorgyffwrdd ac mae ganddynt nifer o effeithiau – er enghraifft mae'r gwaith ar wyladwriaeth a sganio'r gorwel a nodwyd o dan wyddoniaeth a thystiolaeth yn bwysig i sicrhau bwyd diogel ac i'n hymdrechion i sicrhau bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Bydd rhaglenni a phrosiectau mawr yn byw o fewn portffolio'r ASB ac yn rhoi adroddiadau cynnydd misol i'r Bwrdd Portffolio. Bydd y Bwrdd Portffolio yn sicrhau

bod yr elfennau hynny o fewn y portffolio sy'n dibynnu ar ei gilydd yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae'r canlynol yn cynrychioli'r blaenoriaethau arwyddocaol yr ydym yn rhagweld ar hyn o bryd y byddwn yn buddsoddi amser, ymdrech ac adnoddau ynddynt dros y ddwy i dair blynedd nesaf i symud ymlaen tuag at gyflawni'r strategaeth. Mae'r system fwyd yn gymhleth, gyda nifer o wahanol actorion yn gweithredu oddi mewn iddi. Ni all unrhyw un ragweld y dyfodol, ac ni allwn wybod yn hyderus pa gamau y bydd gofyn i ni eu blaenoriaethu yn y dyfodol. Mae'n anochel, dros amser, y bydd yn rhaid newid y rhestr. Felly, fel rhan o'n cylch cynllunio busnes, bydd y Tîm Gweithredol yn adolygu ein rhaglen waith bob chwarter a bydd y Bwrdd yn adolygu'r blaenoriaethau bob blwyddyn i sicrhau bod gweithgareddau yn parhau i fod yn briodol i sicrhau'r manteision gorau posibl ar gyfer defnyddwyr a chynnydd tuag at ein canlyniadau strategol. O ystyried hyn, mae'r cynllun wedi'i ddatblygu fwy ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf, a bydd blynyddoedd diweddarach yn cael eu datblygu fwy yng nghylchoedd cynllunio'r dyfodol.







MAE BWYD YN DDIOGEL

Mae gan ddefnyddwyr yr hawl i gael eu diogelu rhag lefelau risg annerbyniol.

Campylobacter yw'r achos mwyaf cyffredin o wenwyn bwyd bacteriol mewn pobl yn y DU. Bob blwyddyn, amcangyfrifir ei fod yn gyfrifol am oddeutu 280,000 o achosion o wenwyn bwyd ac ar ei waethaf, gall campylobacter ladd. Rydym yn parhau i ddadansoddi effaith campylobacter, ond mae amcangyfrifon mwyaf diweddar yr ASB yn awgrymu y gall cyfanswm yr effaith ar economi'r DU fod oddeutu £900 miliwn y flwyddyn. Gellir cysylltu hyd at 80% o achosion â chig dofednod amrwd.

Listeria monocytogenes, sy'n achosi listeriosis, yw un o'r mathau mwyaf peryglus o'r holl bathogenau bwyd. Mae'n lladd cyfradd uchel o bobl sy'n agored i niwed (h.y. pobl sydd â system imiwnedd fregus, menywod beichiog, babanod yn y groth a babanod newydd, pobl dros 60 oed a chleifion gyda chyflyrau meddygol), ac yn achosi'r nifer mwyaf o farwolaethau fesul poblogaeth mewn grwpiau agored i niwed.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ein **Rhaglen Campylobacter** bresennol drwy <http://www.food.gov.uk/news-updates/campaigns/campylobacter/actnow> – cliciwch ar 'Cymraeg'

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ein **Rhaglen Rheoli Peryglon Listeria** bresennol drwy <http://www.food.gov.uk/science/microbiology/listeria> – cliciwch ar 'Cymraeg'

Blwyddyn 1 – 2015/16

- Ymgyrch Campylobacter – sicrhau bod busnesau yn darparu llai na 10% o adar cyflawn ar ddiwedd y llinell gynhyrchu gyda mwy na 1000 cfu/g.
- Datblygu a chytuno ar gynllun i leihau Listeria.
- Dechrau gwaith ar ddatblygu dulliau perthynol o fesur risg ac effaith i'n galluogi i gymharu ac ymgysylltu â defnyddwyr i gymharu gwahanol ffurfiau o niwed i ddefnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

Blwyddyn 2 – 2016/17

- Ymgyrch Campylobacter – adolygu cynnydd a chytuno ar y camau nesaf.
- Gweithredu cynllun i leihau Listeria.

Blwyddyn 3 a thu hwnt – 2017 ymlaen

- Parhau i weithredu cynllun i leihau Listeria.
- Dirwyn ein gwaith ar ddatblygu dulliau perthynol o fesur risg ac effaith i ben a nodi a gweithredu cymwysiadau.



.....
**MAE BWYD
YN CYD-FYND
Â'R HYN SYDD
AR Y LABEL**
.....



Mae gan ddefnyddwyr yr hawl i wneud penderfyniadau gwybodus am eu bwyd a dim ond pan gaiff bwyd ei nodi a'i labelu'n gywir y mae hyn yn bosibl.

Atgyfnerthodd y gwaith a gynhalion i ddatblygu ein strategaeth ein hymwybyddiaeth o'r risgiau i ddefnyddwyr sy'n gysylltiedig â dilysrwydd a thwyll a throsedd bwyd, lle caiff defnyddwyr eu camarwain yn fwriadol. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol, y diwydiant a chydweithwyr eraill i nodi'r meysydd sy'n peri risg a chytuno ar gamau gweithredu i'w lleihau ar ran defnyddwyr.


Blwyddyn 1 – 2015/16

- Cyfuno'r Uned Trosedd Bwyd newydd – sefydlu mesurau effeithiol ar gyfer casglu, rheoli a dadansoddi gwybodaeth, datblygu achosion, cydweithio ag asiantaethau eraill, a dulliau hysbysu neu adrodd.
- Adolygu ein hymarfer Rheoli Digwyddiad traws-llywodraethol, gan wella ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau mawr.

Blwyddyn 2 – 2016/17

- Uned Troseddau Bwyd – asesu'r angen a chynhyrchu Achos Busnes ar gyfer Cam 2 o gynigion Adolygiad Elliott i alluogi gweinidogion i benderfynu ar y camau nesaf i ddiogelu defnyddwyr.
- Adolygu ein lleoliadau gwylidwriaeth a samplu yng ngoleuni'r risgiau a'r digwyddiadau sydd wedi'u nodi.





CASGLU A
DEFNYDDIO
GWYDDONIAETH,
TYSTIOLAETH A
GWYBODAETH

Byddwn yn parhau i ddatblygu a defnyddio gwyddoniaeth gadarn, a'i chyfathrebu'n agored, yn ein gwaith i ddiogelu buddiannau defnyddwyr, fel sail hanfodol i bopeth a wnawn.

Byddwn yn meithrin ein galluoedd mewn gwyddoniaeth i sicrhau bod ein defnydd ohoni:

- Yn canolbwyntio ar y peryglon a'r heriau mwyaf i fuddiannau presennol defnyddwyr a'u buddiannau yn y dyfodol, a sut y gallwn sicrhau'r effeithiau mwyaf.
- Yn edrych tua'r dyfodol ac yn arloesol.
- Yn gysylltiedig ar draws rhaglenni, disgyblaethau a data i sicrhau gwerth ychwanegol a mewnwelediadau newydd.
- Yn edrych tuag allan i harneisio'r grym o weithio gydag a thrwy eraill.
- Wedi'i chefnogi i ddatblygu ein sgiliau, ein galluoedd a'n hymgysylltiad ein hunain ar draws yr ASB a'r gymuned wyddoniaeth ehangach.

Blwyddyn 1 – 2015/16

- Bwrdd i gytuno ar gynllun cyflenwi ar gyfer ein Strategaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwybodaeth.
- Meithrin gallu i sganio'r gorwel a dadansoddi risgiau sy'n dod i'r amlwg, a defnyddio'r gallu hwnnw.
- Galw a threfnu cynhadledd ar y system fwyd o bersbectif diffiniad y strategaeth o "fuddiannau defnyddwyr" i ymgysylltu ag eraill a meithrin partneriaethau a nodi ble mae pryderon a "bylchau mewn tryloywder".

Blwyddyn 2 – 2016/17

- Parhau i feithrin gallu i sganio'r gorwel a dadansoddi risgiau sy'n dod i'r amlwg a defnyddio'r gallu hwnnw.
- Diffinio ein dull o dargedu prosesau gwyliadwriaeth effeithiol a chytuno ar y dull hwnnw.
- Diffinio a gweithredu'r prif raglenni gwaith ar ddata a thechnolegau newydd, a'u cyflawni drwy bartneriaethau gwyddoniaeth strategol.
- Dirwyn yr adolygiad systematig i beryglon ymwrthedd gwrth-ficrobaidd yn y gadwyn fwyd i ben a nodi a chytuno ar unrhyw gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau a amlinellir. Dechrau gweithredu'r camau hynny.
- Cwblhau rhaglen gychwynnol o waith ar fodelau newid ymddygiad i nodi'r rheiny sy'n darparu'r fframweithiau mwyaf defnyddiol i lunio ymyriadau, a mesurau i'w gwerthuso.

Blwyddyn 3 a thu hwnt – 2017 ymlaen

- Defnyddio ein hasesiad o fodelau newid ymddygiad, a thystiolaeth drwyadl ar agweddau ac arferion defnyddwyr, i fframio, peilota a gwerthuso ein dulliau o gynnal ymyriadau effeithiol, gan gynnwys dulliau hyblyg neu ddulliau ar wahân ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl.



.....
**RHOI'R GRYM I
DDEFNYDDWYR**
.....

Mae strategaeth yr ASB yn nodi fod gan ddefnyddwyr hawliau a chyfrifoldebau mewn perthynas â'r bwyd y maent yn ei fwyta.

Rydym eisiau eu cefnogi i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu parchu a'u bod yn gallu mabwysiadu eu cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau gwybodus am y bwyd y maent yn ei fwyta, gan ddylanwadu ar y system fwyd yn ogystal â'u lles eu hunain a lles eu teuluoedd a'u cymunedau.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored ac ymgysylltu â phobl, a hefyd i annog y diwydiant i fod yn dryloyw am y materion sy'n bwysig i ddefnyddwyr, er mwyn rhoi'r grym a'r dylanwad i ddefnyddwyr sy'n seiliedig ar wybodaeth am beth sy'n digwydd yn y system fwyd.

Blwyddyn 1 – 2015/16

- Sefydlu fforymau newydd ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr mewn ffordd effeithiol – gan gynnwys panel ar-lein sy'n ein galluogi i annog sgwrs â grŵp amrywiol o ddefnyddwyr.
- Gwellu ein defnydd o'r wybodaeth am ddefnyddwyr a'u safbwyntiau ar faterion bwyd a ddefnyddir gennym ac sy'n cael ei dal gan eraill er mwyn targedu gwybodaeth a chynghor yn fwy effeithiol, gan helpu i sicrhau newid mewn ymddygiad lle bo'n briodol.
- Nodi lle gellir defnyddio gwybodaeth am fuddiannau defnyddwyr mewn materion bwyd yn weithredol i ddylanwadu ar eraill i sicrhau manteision i ddefnyddwyr.
- Pwysu i wneud y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ac arddangos sticeri hylendid yn orfodol yn Lloegr.

Blwyddyn 2 – 2016/17

- Ymgyrch Tryloywder – yn seiliedig ar ymchwil defnyddwyr o Flwyddyn 1, nodi pa bethau y dylai busnesau bwyd eu gwneud yn gyhoeddus er mwyn rhoi'r grym i ddefnyddwyr, a dechrau ar ymgyrch i wneud i hynny ddigwydd.
- Gweithredu camau cychwynnol dull gwyddoniaeth dinasyddion.
- Nodi cyfleoedd i gydweithio ag eraill (e.e. cyrff anlywodraethol, adrannau llywodraethol eraill) i annog cydweithio gydag ysgolion, colegau arlwyo a lleoliadau addysgol eraill i ddatblygu sgiliau a hyder defnyddwyr ieuengach i wneud penderfyniadau am y bwyd y maent yn ei fwyta, a dylanwadau ar eraill sy'n gwneud penderfyniadau.
- Datblygu a gweithredu cynlluniau ar sut y byddwn yn rhagori wrth siarad â'r cyhoedd, gwneud penderfyniadau cyfranogol a diogelu defnyddwyr yn effeithiol drwy:
 - fod yn agored i safbwyntiau defnyddwyr ac eraill wrth lunio cwestiynau;
 - ymgysylltu'n gynnar ac yn effeithiol yn y broses o nodi ac asesu opsiynau ar gyfer gweithredu;
 - dwyn ynghyd yr amrywiaeth briodol o adnoddau a dulliau i ymgyrchu dros weithredu a siarad ar ran defnyddwyr.

Blwyddyn 3 a thu hwnt – 2017 ymlaen

- Adolygu a gwerthuso pa mor effeithiol yr ydym ni'n cyfathrebu â'n defnyddwyr, gan wellu ein dealltwriaeth o sut y mae defnyddwyr yn cael mynediad at wybodaeth am fwyd a'r system fwyd.



ALINIO CYNLLUNIAU CYMHELLIANT

Alinio cynlluniau cymhelliant ar gyfer busnesau i sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn cael eu gwarchod – gweithredu'r strategaeth reoleiddio.

Byddwn yn cefnogi'r model darparu presennol lle mae'r model hwnnw dan bwysau, gan sicrhau ffocws ar flaenoriaethau seiliedig ar risg. Byddwn hefyd yn chwilio am ffyrdd i leihau'r beichiau gweinyddu ac adrodd yr ydym yn eu rhoi ar ein partneriaid cyflenwi tra, yn yr hirdymor, byddwn yn gwella'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu, gan sicrhau nad yw ein swyddogaethau rheoleiddio eisoes yn cael eu gweithredu'n effeithiol gan eraill.

Bydd ein rôl reoleiddio yn y dyfodol, gan gynnwys sut y mae darpariaeth yn cael ei hariannu yn y dyfodol, yn cael ei dylanwadu gan Reoliad newydd yr UE ar Reolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol, felly bydd ein gwaith yn Ewrop i ail-negodi'r Rheoliad hwn, ac yna'i weithredu, yn bwysig fel sylfaen i'n dull gweithio yn y dyfodol.

Blwyddyn 1 – 2015/16

- Nodi a gweithredu gwelliannau i'r cytundeb fframwaith, Codau Ymarfer, a mecanweithiau hysbysu/adrodd.
- Datblygu cyfres o gosbau rhwystro cymesur, gan gynnwys gwaith ar ganllawiau dedfrydu, a datblygu a defnyddio mwy o adnoddau yn ymwneud â chosbau enw da.
- Datblygu fframwaith i'n galluogi i asesu yn fwy trylwyr 'hyder yn y broses reoli' mewn busnesau bwyd.
- Nodi ble mae mwy o hyblygrwydd mewn cyfraith bwyd, a phennu sut y gallwn roi hynny ar waith er budd defnyddwyr.
- Cychwyn trafodaeth eang gydag awdurdodau lleol, defnyddwyr, y diwydiant a rhanddeiliaid allweddol eraill am fodelau cyflenwi ategol neu amgen gan gynnwys sut i'w hariannu'n gynaliadwy – ar gyfer busnesau cig a busnesau bwyd eraill.
- Parhau i gynnal trafodaethau yn yr UE ar Reolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol.

Blwyddyn 2 – 2016/17

- Datblygu meini prawf diogelwch a dilysrwydd bwyd ar gyfer darpariaeth bwyd ac arlwyo'r sector cyhoeddus.
- Parhau i gynnal trafodaethau yn yr UE ar Reolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol.

Blwyddyn 3 a thu hwnt – 2017 ymlaen

- Adolygu sut yr ydym ni'n gweithio gydag asiantaethau partner ar draws y byd ar heriau bwyd byd-eang.
- Parhau i gynnal trafodaethau yn yr UE ar Reolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol.
- Llunio a chytuno ar gynlluniau gweithredu ar gyfer unrhyw newidiadau i ddarpariaeth a modelau ariannu a nodwyd ym Mlwyddyn 2.

.....
BOD Y SEFYDLIAD
GORAU Y
GALLWN FOD
.....



O ystyried maint yr heriau yr ydym wedi'u nodi o ran y system fwyd a chyn lleied o adnodd rheoleiddiol sydd ar gael i ni i fynd i'r afael â'r heriau hynny, mae'n hanfodol ein bod, fel sefydliad, yn rhagori ar sicrhau'r effaith orau bosibl o adnoddau bychain.

Gan fod yn effro i sicrhau gwerth am arian a chost effeithiolrwydd ym mhob agwedd ar ein gwaith, byddwn yn canolbwyntio ar ddau faes yn benodol – ein pobl a'n systemau a'n galluoedd o ran technoleg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth.

Blwyddyn 1 – 2015/16

- Ymgysylltu â phobl – rhoi cynllun gweithredu ar waith sy'n seiliedig ar adborth 2014 a sicrhau gwelliant 3 phwynt pellach.
- Dylunio, gan weithio gyda phobl ar draws yr ASB, rhaglen Ffyrdd o Weithio i symud tuag at arfer gorau'r gwasanaeth sifil erbyn Blwyddyn 3.
- Gweithredu cynllun dysgu a datblygu strategol ar draws y sefydliad gan gynnwys rhaglen i ddatblygu rheolwyr ar gyfer rheolwyr llinell blaen.
- Seilwaith technoleg gwybodaeth – parhau i roi'r dechnoleg gwybodaeth yn ei lle i wella effeithlonrwydd, gwydnwch a'r gallu i weithio yn hyblyg ac ati.
- Gwella ein dulliau Rheoli Gwybodaeth, gan gynnwys mapio ein gofynion busnes ar gyfer gwybodaeth, datblygu safonau data cyffredin a sefydlu sylfaen ar gyfer ein model rheoli gwybodaeth.

Blwyddyn 2 – 2016/17

- Datblygu a chynnal cynllun gweithredu i ymgysylltu â phobl yn seiliedig ar adborth 2015 a sefydlu meincnod arfer gorau'r gwasanaeth sifil.
- Parhau â'r gwaith ar Ffyrdd o Weithio, dysgu a datblygu a datblygu dulliau rheoli.
- Datblygu sgiliau a phresenoldeb mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasu ar draws holl dîm yr ASB.
- Seilwaith technoleg gwybodaeth ar waith i wella effeithlonrwydd, gwydnwch a'r gallu i weithio'n hyblyg.
- Ymestyn y defnydd o adnoddau gwybodaeth busnes (*business intelligence tools*).
- Parhau i wella ein dulliau rheoli gwybodaeth drwy ddatblygu arferion rhannu data agored ar draws y llywodraeth.

Blwyddyn 3 a thu hwnt – 2017 ymlaen

- Dod a'r prosiect Ffyrdd o Weithio i ben.

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor am fwyd, neu i lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn, ewch i wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd: food.gov.uk – cliciwch ar 'Cymraeg'

Cysylltu â ni

- | | | | |
|---|--------------------------------|--|---|
|  | Ein hoffi ar Facebook | | facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd |
|  | Ymuno â'n sgwrs | @FSACymru | twitter.com/fsacymru |
|  | Gwyllo ni ar YouTube | | food.gov.uk/youtube |
|  | Cael ein newyddion drwy RSS | | food.gov.uk/rss |
|  | Cael ein newyddion dros e-bost | | food.gov.uk/email |

© Hawlfraint y Goron 2015

Mae cynnwys y cyhoeddiad hwn wedi'i ddiogelu gan Hawlfraint y Goron oni nodir yn wahanol.

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos a lluniau'r Asiantaeth Safonau Bwyd lle mae'r hawlfraint yn perthyn i drydydd parti) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau ac amodau Trwydded Agored y Llywodraeth drwy:

nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am ddefnyddio ac ail-ddefnyddio'r adnodd gwybodaeth hwn mewn e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Cyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd Mai 2015

 ailgylchwch

Ar ô gorrfffen gyda'r llyfryn hwn
a fyddech cystal â'i ailgylchu